# Cynllunio a darparu colur chwistrell baent

## Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu colur chwistrell baent ar gyfer y wyneb a'r corff. Bydd angen i chi ddangos eich bod chi'n gallu cynnal amrywiaeth o gynlluniau a thechnegau colur chwistrell baent. Mae angen y gallu hefyd i ddefnyddio ystod o gynnyrch chwistrell baent. Mae defnydd a chynnal cywir ar y cyfarpar yn agwedd hanfodol o'r safon hon.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu colur chwistrell baent

2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer colur chwistrell baent

3. taenu colur chwistrell baent

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu colur chwistrell baent****

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi'ch cleient a'ch hun i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol
3. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y gwasanaeth
4. sicrhau bod eich ystum a'ch dulliau gwaith eich hun yn isafu ar flinder a risg o anaf i'ch hun ac eraill
5. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r gwasanaeth
6. cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus trwy gydol y gwasanaeth
7. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio
8. sicrhau defnydd ar gyfarpar a deunydd glân
9. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel o gyfarpar, deunydd a chynnyrch
11. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol
12. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer colur chwistrell baent****

13. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu'r **cynllun chwistrellbaent** ac **ardal daenu**
14. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn cyn unrhyw wasanaeth
15. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant

sy'n iau na 16 oed

16. adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd y **camau angenrheidiol**

17. adnabod a chytuno gyda'r cleient gynllun sy'n bodloni eu hanghenion

18. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y **colur chwistrell baent**

19. sicrhau bod y croen yn lân cyn taenu'r **colur chwistrell baent**

20. dewis **colur chwistrell baent** i gyd-fynd â math o groen a chyflwr croen y cleient a'r **cynllun chwistrell baent** y cytunwyd arno

21. profi'r gwasgedd aer a gweithrediad y gwn chwistrellu cyn ei ddefnyddio

**Taenu colur chwistrell aer****

22. defnyddio cyfarpar, **colur chwistrell baent** ac **adnoddau** i fodloni'r cynllun y cytunwyd arno

23. defnyddio **technegau chwistrell baent** i gyflawni'r effaith ddymunol

24. taenu **colur chwistrell baent** yn y drefn ofynnol

25. defnyddio technegau sy'n isafu ar risg o gynnyrch yn lledaenu y tu hwnt i'r ardal driniaeth

26. addasu gwasgedd aer i gyd-fynd â'r **ardal daenu**

27. gorffen y taenu gan ddefnyddio colur confensiynol

28. sicrhau bod pob elfen o'r colur yn cyfuno i ategu ei gilydd a chyflawni'r edrychiad dymunol a'r cynllun y cytunwyd arno

29. selio'r cynllun colur gorffenedig yn ôl yr angen

30. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'r cleient ar y gwasanaeth a ddarparwyd

31. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu colur chwistrell baent****

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

2. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer amddiffyn a pharatoi cleient

3. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol eich hun

4. technegau gosod eich hun a'r cleient mewn safle diogel i atal anghysur

5. amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau megis, gwresogi ac awyru, a pham mae'r rhain yn bwysig

6. pam mae hi'n bwysig cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus

7. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio

8. dulliau gweithio'n ddiogel ac yn lân er mwyn osgoi'r risg o groes-heintio

9. gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**

10. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn

11. cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn

12. gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff

13. y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer colur chwistrell baent****

14. pam mae'n bwysig cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol

15. sut i gynnal ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient

16. y gofynion cyfreithiol dros ddarparu triniaeth i blant sy'n iau na 16 oed

17. yr oed pan fydd unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hyn yn amrywio'n genedlaethol

18. pwysigrwydd cytuno i wasanaeth sy'n bodloni anghenion y cleient

19. pwysigrwydd cyfreithiol sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient i gynnal y gwasanaeth

20. gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient

21. sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y gwasanaeth

22. y gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol a pham

23. y camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas â gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

24. y rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

25. sut i adnabod gwahanol fathau o groen, nodweddion a chyflyrau

26. sut i ddewis a pharu colur chwistrell baent i gyd-fynd â gwahanol fathau o groen ac arlliwiau croen

27. pam mae'n rhaid gwirio a phrofi cyfarpar chwistrell baent cyn eu defnyddio

**Taenu colur chwistrell baent****

28. y gwahanol fathau o gynnyrch a chyfarpar chwistrell baent sydd ar gael

29. egwyddorion sylfaenol theori lliw cyflenwol

30. dewis, asio a chymysgu cynnyrch chwistrell baent

31. defnydd ac effeithiau gwahanol dechnegau chwistrell baent

32. ystyr PSI a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â defnydd ar gyfarpar chwistrell baent dan wasgedd
33. sut i greu gwahanol effeithiau trwy amrywio'r PSI
34. sut y gall pellter a gwasgedd effeithio ar orchudd a dwyster y lliw
35. yr achlysuron pan fyddai'n well defnyddio technegau colur confensiynol
36. pryd i adael rhai ardaloedd o'r wyneb wrth ddefnyddio technegau chwistrell baent
37. y dulliau a ddefnyddir i lanhau a chynnal cyfarpar ac ategolion chwistrell baent
38. y mathau o broblemau a all ddigwydd yn ystod taenu colur chwistrell baent a sut i'w cywiro
39. adweithiau posibl a allai ddigwydd yn ystod chwistrellu paent a sut i ddelio â hwy
40. y **cyngor ac argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaethau
41. cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Technegau ymgynghori****

1. holi
2. gwrando
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

**Cynllun chwistrell baent****

1. amlinellu
2. tatŵio
3. 3D
4. colur ffasiwn
5. ffantasi
6. colur naturiol

**Ardal i'w thaenu****

1. wyneb
2. gwallt
3. corff

**Camau angenrheidiol****

1. annog y cleient i geisio cyngor meddygol

2. esbonio pam nad oedd modd cynnal y gwasanaeth

3. addasu'r gwasanaeth

**Colur chwistrell baent****

1. â sylfaen silicon

2. â sylfaen ddŵr

3. â sylfaen alcohol

**Adnoddau****

1. tap masgio

2. stensiliau

3. brwshys

4. cywasgwr

5. gwn aer a phibell

6. cyfarpar amddiffyn personol

**Technegau chwistrell baent****

1. pylu lliw

2. asio

3. goleuo ac arlliwio

4. stensilio

5. masgio

6. llaw rydd

7. gwyntyllu

8. byrlymu cefn

9. golchi lliw cyfartal

**Cyngor ac argymhellion****

1. cynnyrch ôl-ofal a'u defnydd

2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

3. cynnyrch a gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol

4. gweithdrefnau tynnu colur

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Iechyd a diogelwch****

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

**Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy****

1. lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)
2. lleihau'r defnydd  ynni (offer ynni effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd
5. defnyddio eitemau untro
6. defnyddio dodrefn ecogyfeillgar, wedi'u hailgylchu
7. defnyddio paent â lefelau isel o gemegau

8. defnyddio cynnyrch organig gwrth-alergedd

9. defnyddio deunydd pecynnu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd

10. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

11. annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

**Anghenion amrywiol****

1. diwylliannol

2. crefyddol

3. oedran

4. anabledd

5. rhyw

**Gwrtharwyddion****

1. crafiadau

2. clwyfau agored

3. brechau

4. pwythau

5. asthma

6. cyflyrau bronciol

7. clawstroffobia

**Cygor ac argymhellion****

1. cynnyrch ôl-ofal a'u defnydd

2. gwasanaethau ychwanegol

3. gweithdrefnau tynnu colur

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn

9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

## Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

## Geirfa

**PSI****

Talfyriad o 'Pound per Square Inch' yn ymwneud â'r gwasgedd aer sy'n dod o'r cywasgydd trwy'r gwn ar y croen. Bydd hyn yn cael ei addasu yn unol â'r gorchudd gofynnol a safle a maint yr ardal.

SKABT15

Cynllunio a darparu colur chwistrell baent

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAB12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Therapydd Harddwch, Artistiaid colur, Arbenigwr colur |
| **Cyfres/Set** | Therapi Harddwch |
| **Geiriau Allweddol** | chwistrell baent; colur |